# STRATEGAETH GWIREDDU BUDDION DRAFFT











HYDREF 2020
FERSIWN 1.1

| **Rheoli Fersiynau** | | | |
|---|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad y Newid** | **Golygydd** | **Manylion** |
| | | | |
| | | | |

## CYFLWYNIAD

**Ynghylch y ddogfen hon**

**1.0.** Yr hyn sy'n amlwg yn nod y Cynllun Twf yw'r uchelgais o dwf cynhwysol, twf sy'n cyflawni economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Gweithredu ar yr Economi Ffyniant i Bawb.1

**1.1.** Mae'r Strategaeth Gwireddu Buddion Drafft hon ("y Strategaeth") yn nodi'r dull cyffredinol o reoli buddion o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru drwy amlinellu'r dulliau y bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais) yn eu cymryd i:

- Wireddu'r buddion a ragwelir drwy gyflawni'r Cynllun Twf fel y nodir yn yr Achosion Busnes Portffolio a Rhaglenni;
- Cytuno ar effeithiau economaidd, cymdeithasol ac eraill y gellir eu cynhyrchu o ganlyniad o fewn y Rhanbarth, Cymru ac mewn llefydd eraill yn y DU.
- Pennu'r effeithiau negyddol posib a allai godi o gyflawni'r Cynllun Twf a sut bydd y Cynllun Twf yn lliniaru a rheoli'r rhain.

**1.2.** Caiff y Strategaeth ei chyflawni gan y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) ac Arianwyr y Prosiectau.

**1.3.** Mae'r Strategaeth Gwireddu Buddion wedi'i datblygu gan ddefnyddio deunydd cyfeirio canllaw yn cynnwys '*Guide for Effective Benefits Management in Major Projects'* gan *HM Infrastructure and Projects Authority*,[2], *Magenta Book* Trysorlys Ei Mawrhydi,[3] WEFO,[4] Swyddfa Archwilio Cymru, dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru '*Preparing for the commencement of the Socio-economic Duty'*[5] ac enghreifftiau o arfer orau o lefydd eraill.

**Y Cynllun Twf**

**1.4.** Sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn 2012 ac mae'n cynnwys chwe ardal weinyddol Awdurdodau Lleol rhanbarth y Gogledd a Phrifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Mae'r sector preifat wedi helpu i ffurfio'r cynllun hefyd, drwy Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy a'r Grŵp Cyflawni Busnes.

**1.5.** Mae'r Cynllun Twf yn adeiladu ar y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru, a fabwysiadwyd yn 2016:

1 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf

2 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/671452/Guide_for_Effective_Benefits_Management_in_Major_Projects.pdf

3 https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book

4 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/eu-structural-funds-monitoring-and-evaluating-projects-guidance.pdf

5 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/preparing-for-the-commencement-of-the-socio-economic-duty.pdf

*"rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon."*

**1.6.** Ffocws y Cynllun Twf ar hyn o bryd yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd a mynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol.

**1.7.** Bydd buddsoddiad wedi'i dargedu at y sectorau sy'n bwysig yn strategol drwy bortffolio o'r pum rhaglen mewn dau gategori;

(i) y rheini sy'n cynyddu gwerth sectorau twf uchel

- Rhaglen Ynni Carbon Isel
- Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel
- Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

(ii) y rheini sy'n mynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol i dwf

- Rhaglen Tir ac Eiddo
- Rhaglen Ddigidol

**1.8.** Gweler ddadansoddiad o'r buddsoddiad yn Nhabl 1.1

Figwr 1.1 Dadansoddiad Gwariant Cyfalaf

| Prosiect | Buddsoddiad Cynllun Twf (£m) | Buddsoddiad Sector Cyhoeddus Arall ($) | Buddsoddiad Sector Preifat (£) | Cyfanswm Buddsoddiad Cyfalaf (£) |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Ddigidol | 37.0 | 3.1 | 1.5 | 41.7 |
| Rhaglen Ynni Carbon Isel | 86.4 | 140.4 | 441.7 | 668.5 |
| Rhaglen Tir ac Eiddo | 79.1 | 1.9 | 274.4 | 355.4 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | 13.0 | 26.5 | 0.0 | 39.4 |
| Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | 24.5 | 12.4 | 4.4 | 41.4 |
| CYFANSWM Y CYNLLUN TWF | **240.0** | **184.3** | **722.0** | **1,146.4** |

**1.9.** Fel y nodir yn Nhabl 1.2, bydd y pum rhaglen hyn yn cyfrannu gyda'i gilydd i gyflawni'r buddion a ganlyn i'r rhanbarth dros dymor o bymtheg mlynedd:

- Creu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi newydd net
- Cynnydd net o rhwng £2.0 biliwn a £2.4 biliwn mewn GVA i Economi'r Gogledd
- Cyfanswm o £1.1 biliwn o fuddsoddiad.

Tabl 1.2 Buddion Economaidd Ychwanegol Net (mae GVA yn gronnus hyd 2036 ac wedi'i fynegi mewn prisiau 2020/21, heb ei ddisgowntio; mae swyddi yn flynyddol ar raddfa sefydlog)

| | GVA (£m) | Swyddi a grëir (cyfwerth ag amser llawn) |
|---|---|---|
| Ynni carbon isel | 430 - 530 | 800 – 980 |
| Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel | 90 – 110 | 150 – 180 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | 230 – 280 | 310 – 380 |
| Tir ac eiddo | 1,060 – 1,290 | 1,870 – 2,280 |
| Digidol | 150 – 190 | 310 – 380 |
| Cyfanswm, Cynllun Twf Gogledd Cymru | **1,970 – 2,410** | **3,440 – 4,210** |

**Ffynhonnell: Cyfrifiadau Hatch yn seiliedig ar ddata ar lefel prosiect. Wedi'i dalgrynnu i'r £10m/10 swydd cyfwerth ag amser llawn agosaf. Mae'r amrediadau yn defnyddio lled gwall o ± 10%.**

**Gweddill y Strategol hon**

**1.10.** Mae gweddill y Strategaeth hon yn nodi:

- Deilliannau'r rhaglenni (adran pedwar). Crynhoi'r heriau y mae'r Cynllun Twf yn ceisio rhoi sylw iddynt drwy dwf cynhwysol ac amcanion eraill sydd wedi'u hadnabod;

- Cynulleidfaoedd targed ac adrodd (adran tri). Amlinellu'r rheini y rhagwelir y byddant yn brif ddefnyddwyr darganfyddiadau monitro a gwerthuso gwireddu buddion, a sut a phryd yr ymgysyllti â hwy;

- Damcaniaeth newid y Rhaglen (adran pump). Mynegi'r achos dros fuddsoddi (mewnbynnau), y gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r buddsoddiad. Mae'n dangos lle bydd buddion yn cael eu gwireddu (allbynnau) a phwy yw'r buddiolwyr a fwriedir. Yn olaf, mae'n dangos y perthnasau posib rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a'r effeithiau allweddol sydd wedi'u targedu gan y Cynllun Twf yn y tymor hir a chanolig;

- Mae'r dulliau mesur (adran chwech) yn cynnig detholiad o ddangosyddion perfformiad allweddol (KPI) a chasglu data gan yr uchod, a'r dulliau monitro a gwerthuso dilynol a gaiff eu mabwysiadu i asesu allbynnau ac effeithiau;

- Protocolau adrodd rheoli newid (adran saith) i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu angenrheidiol yn eu lle i weithredu'r Strategaeth hon ac adnabod buddion strategol o fonitro, gwerthuso a rheoli gweithgareddau'r rhaglen;

**1.11.** Dylid darllen y Strategaeth Gwireddu Buddion hon law yn llaw â'r dogfennau allweddol a ganlyn

- Cynllun Monitro a Gwerthuso'r Cynllun Twf (MEP)
- Asesiadau Effaith y Cynllun Twf sy'n canolbwyntio ar Gydraddoldeb, y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Iaith Gymraeg
- Y Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP).

**1.12.** Gwneir gwaith pellach wrth i achosion busnes prosiectau gael eu datblygu i adeiladu cytundeb ar draws partneriaid y Cynllun Twf ynghylch y telerau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y

ddogfen hon,6 alinio rhwng y strategaeth hon a deilliannau fframwaith datblygu cenedlaethol Cymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) rhyngwladol, ac alinio prosesau rhwng y Bwrdd Uchelgais ac Arianwyr Prosiectau.

## CYNULLEIDFAOEDD TARGED AC ADRODD

**Pwy fyddwn ni'n ymgysylltu â nhw a pham**

**2.0.** Mae'r cynulleidfaoedd a fydd yn dymuno defnyddio neu bod â diddordeb yn allbynnau'r Strategaeth Gwireddu Buddion a'r dulliau monitro a gwerthuso arfaethedig priodol yn cynnwys:

- **Y cyhoedd cyffredinol** er mwyn deall effeithiau'r Cynllun Twf, sut y gallan nhw a'u cymunedau ymgysylltu'n uniongyrchol gyda'r rhaglenni a'r prosiectau perthnasol ac elwa ohonyn nhw yn y ffordd orau, ynghyd â chael gwybod pa gynnydd sydd wedi'i wneud i sicrhau amcanion y Cynllun Twf;

- **Buddsoddwyr y Cynllun Twf** ar draws Llywodraethau'r DU a Chymru er mwyn rhoi sail i bennu, yn erbyn gwybodaeth waelodlin gytûn, y graddau y mae effeithiau rhagweladwy'r cynllun twf yn cael eu cyflawni, neu'n debygol o gael eu cyflawni, a pha newidiadau i weithgareddau'r dyfodol allai wella'r effeithiau hyn neu liniaru ffactorau allanol na fu modd eu rhagweld;

- **Bwrdd Gweithredol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** sy'n cynghori gweithgareddau Swyddfa Rheoli Portffolio'r Cynllun Twf ac yn ymgysylltu â'r uchod i gyda wrth fonitro perfformiad;

- **Byrddau Rhaglen y Cynllun Twf** sydd wedi'u sefydlu i gynghori a goruchwylio'r gwaith o wireddu, gweithredu parhaus, monitro a rheoli themâu, prosiectau a rhaglenni penodol.

- **Sefydliadau neu gyrff partner allweddol** megis y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, y Grŵp Cyflawni Busnes ac eraill sy'n dymuno ymgysylltu â'r Cynllun Twf, ei gefnogi a dylanwadu deilliannau cadarnhaol ohono.

**Egwyddorion Adrodd**

**2.1.** Wrth adrodd allbynnau ac effeithiau i'r cynulleidfaoedd uchod, mae'r Bwrdd Uchelgais ac arianwyr y prosiectau yn ymrwymedig i:

- Lynu wrth egwyddorion cyffredinol arferion gorau'r Llywodraeth wrth gyflawni prosiectau a rhaglenni;
- Dewis dulliau monitro a gwerthuso priodol er mwyn mesur cynnydd wrth fodloni'r amcanion a'r effeithiau twf cynhwysol sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn y ffordd orau;
- Diweddaru'r strategol hon a'r protocolau adrodd cysylltiedig yn rheolaidd; ac,

6 Gan gyfeirio at ddogfennau allweddol megis

- Addasu mesurau newydd eraill a fydd yn helpu i asesu a chefnogi rheolaeth well o weithgareddau ac effeithiau'r cynllun twf

**2.2.** Yn ogystal, mae'r Bwrdd Uchelgais wedi mabwysiadu'r egwyddorion a ganlyn yn seiliedig ar brofiad o cynlluniau twf eraill:

- Bydd amcanion cyflawni a dangosyddion perfformiad cysylltiedig yn cael eu halinio'n gyson ag allbynnau ac amcanion effaith y Cynllun Twf, fel y nodir yn y dogfennau portffolio a rhaglen;

- Caiff monitro a gwerthuso eu defnyddio i gadarnhau: y gellir gwireddu'r buddion sy'n gysylltiedig â'r allbynnau hyn; y gellir rheoli'r risgiau o beidio â chyflawni, lle bo hynny'n briodol; ac y gellir dod â gwaith nad oes cyfiawnhad iddo i ben;

- Bod llywodraethu, fframweithiau rheoli a dulliau monitro a gwerthuso yn gymesur ac yn briodol i'r gwaith a'r lefelau o risg cyffredinol sydd ynghlwm â chyflawni pob rhaglen a phrosiect perthnasol;

- Bod atebolrwydd a chyfrifoldebau wedi'u diffinio, yn gyd-gyson ac yn bosib eu holrhain ar draws pob lefel o reolaeth fel sydd wedi'i grynhoi yn yr adran flaenorol a'i nodi yn nogfen y Cynllun Twf;

- Bydd dulliau monitro a gwerthuso, adnoddau ac arfer dda yn cael eu rhannu ymhlith arweinwyr y rhaglenni er mwyn lleihau i'r eithaf y costau sydd ynghlwm â monitro a gwerthuso, gan hefyd geisio gwneud y gorau o fuddion yn y dyfodol, yn arbennig ar draws rhyng-ddibyniaethau'r rhaglenni. Bydd hyn yn cynnwys:
    - Mabwysiadu cyfresi data, diffiniadau a chylchoedd adrodd cyffredin er mwyn caniatáu gwneud cymariaethau rhwng prosiectau a rhaglenni ar lefel thema a, lle bo hynny'n briodol, rhaglen; a,
    - Defnyddio ffynonellau data presennol a rhesymoli unrhyw ddata newydd a gesglir gymaint â phosib.

- Bydd addasrwydd y dangosyddion a ddewisir yn ddarostyngedig i adolygiad parhaus yng ngoleuni ffynonellau data / dulliau mesur amgen yn dod ar gael; a,

- Bydd deilliannau ac allbynnau hwyluso yn cael eu craffu, ac fe ymgynghorir arnynt, yn barhaus gan randdeiliaid perthnasol, cyrff cynrychioladol ac asiantaethau.

**Adrodd**

**2.3.** Yn ogystal â'r adrodd cynnydd wythnosol, misol ac arall a wneir yn barhaus eisoes gan y PMO, bydd monitro a gwerthuso allbynnau, deilliannau ac effeithiau canolradd y cynllun twf yn ffurfio rhan o'r cylchoedd adrodd rheolaidd o fewn rheolaeth a goruchwyliaeth ffurfiol perfformiad y Cynllun Twf, sef:

- **Adrodd yn Chwarterol** - bydd pob Bwrdd Rhaglen yn cynhyrchu adroddiad monitro perfformiad a risg chwarterol yn erbyn y cerrig milltir sydd wedi'u nodi mewn achosion busnes perthnasol. Yna, bydd cyfarfod perfformiad chwarterol yn digwydd rhwng y PMO a'r Llywodraethau yn ymdrin â chynnydd y prosiect drwy eithriad, monitro ariannol, a pherfformiad yn cynnwys monitro a gwerthuso. Yna, bydd

adroddiad monitro perfformiad a chofrestr risg rhaglenni cyffredinol gydag unrhyw argymhellion yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Uchelgais.

- **Adrodd yn Flynyddol** - yn seiliedig ar yr uchod, ac er mwyn asesu faint o effaith y mae'r Cynllun Twf yn ei chael ar ddeilliannau twf economaidd cynhwysol cytûn, bydd y PMO yn cynnwys allbwn cyfanredol, data effaith, a deunydd astudiaeth achos perthnasol - ynghyd â diweddariadau a diwygiadau i'r Strategaeth hon - mewn adroddiad blynyddol ar holl weithgareddau'r Cynllun Twf. Caiff data ei rannu a'i groes-gyfeirio gyda'r data a gesglir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru.

- **Effaith Economaidd 3-5 mlynedd** - gwerthusiad a gomisiynir yn allanol o economi'r Gogledd er mwyn asesu'r newid cyffredinol yng ngwerth yr economi (GVA) cynhyrchedd (GDP) swyddi a diweithdra ac ati.

## DEILLIANNAU'R RHAGLENNI

**Cyd-destun y Cynllun Twf**

**3.0.** Fel y nodir uchod, mae'r Cynllun Twf yn adeiladu ar y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru:

> *"rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon."*

3.1. Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol. Ein dulliau gweithredu yw hyrwyddo twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Gweithredu ar yr Economi Ffyniant i Bawb.

**3.2.** Mae dangosyddion gwaelodlin rhanbarthol a nodir isod yn disgrifio anghydraddoldeb sylweddol ledled rhanbarth y Gogledd ac wrth gymharu ag ardaloedd tebyg o'r DU, ac mae hi'n hanfodol bod y Cynllun Twf felly yn cyflawni ar ei ymrwymiad i dwf cynhwysol. Mae'r adrannau a ganlyn yn nodi'r heriau o fynd i'r afael â thwf cynhwysol drwy Raglenni'r Cynllun Twf a'r amcanion, y dulliau cefnogi, y strwythurau rheoli a llywodraethu y bydd y Bwrdd Uchelgais yn eu defnyddio i helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

**Heriau Twf Cynhwysol**

**3.3.** Adnabuwyd yr heriau a ganlyn o fewn Dogfen Gynnig Gweledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru yn seiliedig ar gymharu data ledled rhanbarth y Gogledd a chymharu yn erbyn rhanbarthau eraill o fewn Cymru a'r DU:

- Er gwaethaf y cynnydd mewn GVA yn y rhanbarth, mae amrywiaeth eang mewn GVA y pen rhwng gorllewin a dwyrain y rhanbarth. Mae GVA yn y Gogledd yn parhau'n gyson is na chyfartaledd y DU.

- Er bod lefelau cyflogaeth a diweithdra yn gwella, mae'r twf mewn sectorau 'gwerth uchel' yn yr economi wedi bod yn gyfnewidiol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn yn her os ydym am wella cynhyrchedd a natur gystadleuol y rhanbarth.
- Mae rhai rhannau o’r rhanbarth yn ddibynnol ar sectorau/cyflogaeth sy'n derbyn tâl isel yn draddodiadol. Gall gor-ddibyniaeth ar y sector cyhoeddus mewn rhai ardaloedd gael effaith negyddol, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.
- Er bod y rhanbarth wedi gweld gwelliant mewn ffigyrau cyflogaeth a diweithdra, nid yw'r cyfraddau anweithgarwch economaidd wedi gwella ac maent yn parhau'n uwch na chyfartaledd y DU.
- Mae enillion cyfartalog aelwydydd yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU, gyda rhai Awdurdodau Lleol yn y Gorllewin ymhlith yr isaf yng Nghymru a'r DU.
- Mae 94.5% o'r mentrau yn y Gogledd yn y categori maint dim i micro (0-9 o weithwyr). Mae hyn yn arwydd o ddibyniaeth ar fusnesau micro yn y rhanbarth.
- Mae prinder mentrau mwy yn enwedig yn siroedd y gogledd-orllewin ynghyd â heriau ynghylch tyfu busnesau y tu hwnt i feintiau 'micro', bach a chanolig.
- Mae Cysylltedd Digidol annigonol ledled y rhanbarth yn parhau i fod yn her i fentrau ac unigolion, gydag isadeiledd ar ôl gweddill y DU yn nhermau darpariaeth signal a chapasiti.
- Mae cysylltiadau trafnidiaeth ac isadeiledd ffisegol yn cyfyngu symudiad a mynediad parod i'r prif ganolfannau cyflogaeth.
- Mae lefelau cwblhau tai ledled y rhanbarth ar eu hisaf erioed, ac nid yw adeiladu tai yn dal i fyny â'r galw.
- Lefelau Sgiliau - nid oes gan y gweithlu cyfredol y sgiliau uwch na'r sgiliau cywir sydd eu hangen i'r economi sy'n tyfu. Nid oes llawer o ddiddordeb mewn pynciau STEM/digidol.
- Mae poblogaeth sy'n heneiddio ledled y rhanbarth a thraddodiad o ddoniau yn symud allan o'r rhanbarth. Mae buddsoddi yn y sgiliau sy'n cyd-fynd ag anghenion cyfleoedd cyflogaeth newydd y rhanbarth yn sylfaenol i iechyd economaidd yr ardal yn y dyfodol.

**3.4.** Gan edrych tuag at weithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yng Nghymru ym mis Mawrth 2021, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais adnabod ystod o Uchelgeisiau Twf Cynhwysol i fynd i'r afael â'r heriau hyn a allai:

- Hysbysu a chael eu mabwysiadu gan raglenni a phrosiectau unigol fel cyfle am uchelgais a sail er mwyn monitro ac arddangos deilliannau yn eu herbyn;
- Ysgogi, cefnogi a gwella cysylltiadau a chydweithio ar draws rhaglenni a phrosiectau (er mwyn cyflawni buddion ychwanegol); a,
- Chefnogi trefn lywodraethu gyffredinol y Cynllun Twf a rheoli gwneud penderfyniadau ac adrodd, a dulliau monitro a gwerthuso.

**Uchelgeisiau Twf Cynhwysol**

**3.5.** Caiff Uchelgeisiau Twf Cynhwysol eu datblygu drwy drafodaethau gyda phartneriaid y Cynllun Twf er mwyn rhoi sylw i'r heriau uchod. Caiff y rhain eu datblygu a'u cadarnhau yn ystod y gwaith o ddatblygu achosion busnes y prosiectau. Mae enghreifftiau o uchelgeisiau posib wedi'u nodi isod:

A. Cael gwared â rhwystrau twf sy'n ymwneud â thai, digidol a thrafnidiaeth drwy ymyraethau i gynyddu stoc tai a gwella cysylltedd ar-lein a thrafnidiaeth ledled y rhanbarth;

B. Cyflawni buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol drwy gaffael yn unol ag egwyddorion sy'n cynyddu'r gwerth a gyflawnir o fuddsoddiadau'r Cynllun Twf;

C. Targedu ymyraethau cyflogadwyedd a sgiliau drwy ledaenu mynediad a rhoi sylw i brinder sgiliau er mwyn rhoi hwb i lif unigolion o grwpiau dan anfantais i mewn i gyfleoedd gyrfa da;

D. Sbarduno Twf Cynhwysol er mwyn datgloi cronfeydd talent newydd ar gyfer busnesau, hyrwyddo gwaith teg a rhoi'r sgiliau angenrheidiol i ddinasyddion dan anfantais er mwyn iddynt lwyddo;

E. Monitro a gwella deilliannau'r Cynllun Twf ar gyfer merched, pobl ag anableddau, y sawl sy'n wynebu rhwystrau oherwydd oed ac unigolion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig; a,

F. Chofnodi a, lle bo hynny'n bosib, gwella'r buddion ychwanegol o weithio mewn Partneriaeth na fyddai wedi digwydd o reidrwydd yn absenoldeb y Cynllun Twf.

Mae enghreifftiau o sut caiff yr Uchelgeisiau hyn eu gwireddu'n ymarferol drwy raglenni'r Cynllun Twf wedi'u nodi isod:

| | Uchelgeisiau Twf Cynhwysol | Enghraifft |
|---|---|---|
| A | Cael gwared â rhwystrau twf sy'n ymwneud â thai, digidol a thrafnidiaeth drwy ymyraethau i gynyddu stoc tai a gwella cysylltedd ar-lein a thrafnidiaeth ledled y rhanbarth; | Cyflawni dros 1,000 o leiniau datblygu preswyl rhwng 2021 a 2026<br>Sicrhau bod gan yr holl eiddo preswyl yn y rhanbarth gysylltedd band eang cyflym iawn yn y tymor byr |
| B | Cyflawni buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol drwy gaffael yn unol ag egwyddorion sy'n cynyddu'r gwerth a gyflawnir o fuddsoddiadau'r Cynllun Twf; | Ymgysylltu strategol gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan PMO y Bwrdd Uchelgais ac Arianwyr Prosiectau |
| C | Targedu ymyraethau cyflogadwyedd a sgiliau drwy ledaenu mynediad a rhoi sylw i brinder sgiliau er mwyn rhoi hwb i lif unigolion o grwpiau dan anfantais i mewn i gyfleoedd gyrfa da; | Recriwtio wedi'i dargedu ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth yn ystod cyfnodau adeiladu a chyflawni drwy lwybrau sy'n cyrraedd/cynnwys grwpiau dan anfantais |
| D | Sbarduno Twf Cynhwysol er mwyn datgloi cronfeydd talent newydd ar gyfer busnesau, hyrwyddo gwaith teg a rhoi'r sgiliau angenrheidiol i ddinasyddion dan anfantais er mwyn iddynt lwyddo; | Darparu hyfforddiant ac uwch-sgilio i bobl/busnesau yn y sectorau gweithgynhyrchu gwerth uchel, bwyd-amaeth a thwristiaeth<br>Didoli cyfleoedd hyfforddiant a datblygu yn ôl nodweddion gwarchodedig |
| E | Monitro a gwella deilliannau'r Cynllun Twf ar gyfer merched, pobl ag anableddau, y sawl sy'n wynebu rhwystrau oherwydd oed ac unigolion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig; a, | Bydd y swyddi sy'n cael eu creu ar draws y portffolio yn cael eu didoli yn ôlnodweddion gwarchodedig a bodlonrwydd mewn swydd |
| F | Chofnodi a, lle bo hynny'n bosib, gwella'r buddion ychwanegol o weithio mewn Partneriaeth na fyddai wedi digwydd o reidrwydd yn absenoldeb y Cynllun Twf. | Arianwyr Prosiectau yn mabwysiadu'r egwyddorion hyn ar gyfer ymgysylltu gwaith rhanbarthol ehangach<br>Cefnogi a hwyluso cydweithio a chryfhau'r gadwyn gyflenwi ranbarthol |

# DAMCANIAETH NEWID

**Deilliannau ac Effeithiau**

**4.0.** Fel sydd wedi'i nodi yn y cyflwyniad i'r Strategaeth hon, nodir y gwahaniaeth rhwng:

- Allbynnau: h.y. p'un a yw'r themâu yn bodloni eu Strategaethau cyflawni ac amcanion gwariant y Cynllun Twf; ac,
- Effeithiau: pa fuddion economaidd, cymdeithasol ac eraill (neu effeithiau negyddol) a allai fod wedi'u cynhyrchu o ganlyniad?

**4.1.** Gwneir y gwahaniaeth hwn yn amlwg hefyd yn y Cynllun Twf:

- Caiff allbynnau eu disgrifio mewn termau meintiol dros oes y Portffolio megis: 3,400 - 4,200 o swyddi newydd; denu buddsoddiad o £1.1 biliwn; a chyflawni dros 1,000 o leiniau datblygu preswyl rhwng 2021 a 2026; a,
- Chaiff effeithiau eu hamlinellu'n bennaf yn nhermau bodloni amcanion twf cynhwysol drwy gyflawni'r allbynnau hyn e.e. "Bydd y Bwrdd Uchelgais yn hyrwyddo ac yn hybu cyflawni buddion gwerth cymdeithasol a chymunedol drwy weithgarwch caffael ac yn profi polisïau allweddol megis y ddyletswydd gymdeithasol economaidd a'r bil partneriaethau cymdeithasol"

**Damcaniaeth Newid**

4.2. Mae "Damcaniaeth Newid" yn darparu sail gychwynnol er mwyn mapio'r perthnasau posib rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, deilliannau ac effeithiau rhaglenni yn ei herbyn. O ganlyniad, mae Damcaniaeth Newid yn darparu fframwaith er mwyn ystyried beth allai fod yn bwysig profi, monitro a gwerthuso yn ei erbyn wedi hynny. Mae'r rhain yn adeiladu ar y modelau rhesymeg sydd wedi'u nodi yn yr achosion busnes portffolio a rhaglenni, ond yn ogystal dylid ceisio gwneud y tybiaethau sy'n sail i'r model rhesymeg yn glir ynghylch sut bydd buddsoddiadau'r Cynllun Twf yn gyrru twf cynhwysol.

4.3. Mae PMO y Bwrdd Uchelgais wedi drafftio damcaniaethau newid dros dro ar gyfer pob un o raglenni'r Cynllun Twf fel y nodir yn Atodiad A. Caiff y rhain eu datblygu ymhellach gyda'r Byrddau Rhaglen a chânt eu cynnwys mewn Damcaniaeth Newid gyffredinol ar gyfer y portffolio.

4.4. Wrth ddatblygu'r damcaniaethau newid hyn, mae'r PMO wedi canolbwyntio ar y cysylltiadau rhyngddynt:

- Y **mewnbynnau a'r gweithgareddau** sydd wedi'u hadnabod o fewn rhaglenni sy'n ffurfio portffolio'r Cynllun Twf;
- Y prif **grwpiau buddiolwyr** yn nhermau sectorau a phreswylwyr ledled y Gogledd a'r tu hwnt a gaiff eu heffeithio gan y gweithgareddau hyn;
- **Allbynnau uniongyrchol** tymor-byr a fydd yn dilyn o fewn y sectorau hyn a'r grwpiau presennol wrth gwblhau ac agor pob prosiect
- Ystod o dangosyddion effaith tymor-canolig **canolraddol** sy'n berthnasol i bob rhaglen a fydd yn ceisio amlinellu, yn erbyn y gwaelodlin cytûn, y buddion uniongyrchol ar draws grwpiau buddiolwyr y Cynllun Twf; ac,
- **Isafswm** o effeithiau tymor hir sy'n canolbwyntio, ar lefel Ranbarthol, ar fuddion cynaliadwy'r Cynllun Twf yn nhermau:

    - Twf economaidd, yn cynnwys twf cyflogaeth gynaliadwy a chynnydd mewn buddsoddiad ac adenillion cysylltiedig;
    - Sut caiff yr uchod ei alinio â chyflawni'r pum uchelgais twf cynhwysol, a'u cefnogi, a "chamau cadarnhaol" cysylltiedig yng nghyswllt grwpiau nodweddion gwarchodedig sydd wedi'u hadnabod; ac,
- **Isafswm** o effeithiau negyddol posib sy'n canolbwyntio, ar lefel Ranbarthol, ar risgiau i fuddion cynaliadwy'r Cynllun Twf yn nhermau effeithiau ar allyriadau carbon, bioamrywiaeth ac effeithiau adborth economaidd negyddol.

**4.5.** Hefyd, caiff cyfres o ffurflenni rhaglen eu datblygu i gyflwyno'r wybodaeth a ganlyn. Gweler y templed drafft yn Atodiad B.

- Dulliau rhaglenni o fesur allbynnau, effeithiau a buddion sydd wedi'u hadnabod
- Dull ar gyfer profi ychwanegolrwydd net h.y. a yw'r effeithiau sydd wedi'u hadnabod yn debygol o fod yn ganlyniad i ymyraethau'r Cynllun Twf yn erbyn yr opsiwn Busnes fel Arfer
- Gwybodaeth waelodlin: e.e. swyddi, GVA ac amrywiadau rhaglenni
- Dangosyddion effaith allweddol: sy'n cynrychioli buddion y prosiectau a chânt eu defnyddio ar y cyd â'r wybodaeth waelodlin i fonitro cynnydd a hysbysu gwerthusiadau effaith y dyfodol.
- Ffynonellau Data: Ffynonellau'r gwaelodlin gwreiddiol a gwybodaeth dangosydd effaith ddilynol
- Amserlen olrhain; cyfnod monitro dangosyddion effaith sy'n gymesur ac yn benodol i'r rhaglen.
- Dull Effaith; yn nhermau math y dulliau y gellir eu mabwysiadu i werthuso'r effeithiau net a gynhyrchir yn ôl gweithgareddau a deilliannau'r thema

**Gwerth Ychwanegol Strategol**

4.6. Yn olaf, tra bod yr uchod yn tybio bod rhyw gyswllt ar draws a rhwng rhaglenni, nid oes cydnabyddiaeth amlwg o ychwanegolrwydd perthnasau gwaith a deilliannau'r Cynllun Twf. Er mwyn ymdrin â hyn, mae'r PMO yn rhagweld - fel yr amlinellir yn Nhabl Pedwar - darparu enghreifftiau ansoddol o'r buddion hynny ar draws y pum dimensiwn a awgrymir isod i'r ddwy Lywodraeth.

*Elfennau Gwerth Ychwanegol Strategol Posib Cynllun Twf Gogledd Cymru*

| Diffiniad | Enghreifftiau |
|---|---|
| **Catalydd ac arweinyddiaeth strategol**: Mynegi a chyfathrebu anghenion, cyfleoedd a datrysiadau datblygu rhanbarthol i bartneriaid a rhanddeiliaid yn y rhanbarth ac mewn llefydd eraill. | Creu hyder yn y rhagolygon ar gyfer twf economaidd cynhwysol ac yng nghapasiti partneriaid a rhanddeiliaid i wireddu'r potensial ar gyfer twf a gwell perfformiad y Cynllun Twf. |
| **Dylanwad strategol:** Ymgymryd â gweithgaredd, neu sbarduno gweithgaredd, sy'n diffinio rolau penodol y partneriaid, yn adeiladu ymrwymiad i'r amcanion strategol a rennir a'u hannog nhw i glustnodi eu cyllid yn unol â hynny. | Cynhyrchu partneriaethau ar draws y rhanbarth o gyd-fuddiant i ragolygon twf pob ardal sy'n cymryd rhan. Cyflawni aliniad a rhyng-gloi blaenoriaethau a strategaethau buddsoddi Cynllun Twf Gogledd Cymru a phartneriaethau eraill. |

| | |
|---|---|
| **Lifer:** Darparu cymhelliant ariannol ac arall i symud adnoddau partneriaid a rhanddeiliaid - offer, pobl ynghyd â chyllid. | Cyllid wedi'i ddenu ac adnoddau eraill gan bartneriaid a rhanddeiliaid i gefnogi amcanion y Cynllun Twf. |
| **Synergedd**: Defnyddio capasiti, gwybodaeth ac arbenigedd sefydliadol i wella cyfnewid a throsglwyddo gwybodaeth a chydlynu a/neu integreiddio dylunio a chyflawni ymyraethau rhwng partneriaid. | Lleihau dyblygu darpariaeth gwasanaeth gan bartneriaid rhanbarthol - e.e. wrth gefnogi datblygiadau busnes. Ehangu rhaglenni a phrosiectau i lefelau buddiol sy'n cyflawni economïau maint ac yn darparu ar gyfer mas critigol wrth sicrhau buddion. |
| **Ymgysylltu:** Sefydlu'r mecanweithiau a'r cymhelliant ar gyfer ymgysylltu mwy effeithiol a phendant gyda rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni blaenoriaethau a rhaglenni Rhanbarthol ac Is-ranbarthol. | Cyflwyno ansawdd ac arloesedd i ymyriadau'r Cynllun Twf drwy drosglwyddo arfer dda, datblygu a defnyddio meincnodau a mabwysiadu prosesau newydd. |

## DULLIAU MESUR

**5.0.** O ystyried y Damcaniaethau Newid drafft hyn, mae'r PMO wedi datblygu cyfres o Ffurflenni sy'n adnabod: **dulliau thema penodol** i fonitro a werthuso mewn perthynas ag allbynnau sydd wedi'u hadnabod, effeithiau posib a gweithredoedd cydraddoldeb cadarnhaol; a **dull cyffredinol** i fonitro a gwerthuso gwireddu **Buddion Cymunedol ac Arloesedd Cymdeithasol** o ystyried natur lorweddol y ddau amcan a'r amrywiad eang yn y buddion a allai ddod i'r amlwg.

**5.1.** Wedi'u rhagweld fel dogfennau cryno allweddol - ynghyd â "chontract anffurfiol" y bydd partneriaid Rhaglenni yn eu mabwysiadu'r gyson yn eu dulliau monitro a gwerthuso - bydd pob ffurflen yn nodi:

- **Gwybodaeth waelodlin yng nghyswllt buddiolwyr thema** e.e. cyfeirio at gyfraddau diweithdra, yr adenillion ar fuddsoddiad a ragwelir o brosiect ymchwil, rhyw, ethnigrwydd, anabledd y gweithwyr, patrymau defnydd trafnidiaeth presennol ac ati;
- **Dangosyddion effaith allweddol;** sy'n cynrychioli buddion tebygol gweithgareddau'r thema ac y gellir eu defnyddio - a'u cymharu â'r gwaelodlin uchod - i fonitro cynnydd ac o ganlyniad gellir eu defnyddio wrth werthuso effaith yn y dyfodol;
- **Ffynhonnell Data;** naill ai pwyntiau data presennol neu rai newydd a fyddai'n amlinellu'r dangosyddion uchod orau yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol;
- **Cylch Monitro;** pryd y bydd hi'n fwyaf ymarferol i adrodd am gynnydd y ystyried y gorwelion amser tymor byr, canolig a hir gwahanol sy'n berthnasol i'r themâu a'r gweithgareddau gwahanol nid yn unig rhwng adeiladu a gweithredu ond hefyd amserlenni adrodd blynyddol ac effeithiau deilliant/effaith gwahanol; a,
- **Dulliau'r Effaith;** yn nhermau math y dulliau y gellir eu mabwysiadu i werthuso'r effeithiau net a gynhyrchir yn ôl gweithgareddau a deilliannau'r thema

**Rheoli Newid**

**5.2.** Mae Strategaeth Rheoli Newid a Materion wedi'i ddatblygu ar gyfer Portffolio'r Cynllun Twf. Mae'r strategaeth yn diffinio beth yw newid, sut caiff newid ei asesu a'i reoli.

**5.3.** Disgrifir dau fath penodol o newid:

- **Newid Trawsffurfiol neu Strategol** - mae hwn yn newid sy'n trawsffurfio'r ffordd y mae rhaglen neu brosiect yn cael ei gyflawni sy'n golygu bod angen rhoi strwythurau, systemau, gweithdrefnau newydd yn eu lle ac, o bosib, adolygu prosiect a'r buddion y bwriedir iddo eu cyflawni.
- **Newid Cynyddol neu Dactegol** - sef newid y gellir ei dderbyn o fewn rhaglen neu brosiect.

**5.4.** Er mwyn deall goblygiadau'r rhain, mae angen dealltwriaeth o'r llifoedd buddion sydd wedi'u cyflawni yn erbyn y gwaelodlin ynghyd â rhagamcanion ynghylch lefelau buddion yn y dyfodol. Os bydd rheoli newid yn effeithiol, rhaid i'r buddion fod yn fesuradwy a chysylltu allbynnau â nodau strategol.

**Rheoli Newid**

**5.5.** Mae'r Strategaeth Rheoli Newid yn ymdrin â'r isod:

- Mathau o Newid
- Diffinio Newid
- Categorïau Newid
- Asesu Newid
- Newid mewn Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau
- Mesur Newid
- Rheoli Newid
- Proses Ddyrchafu Rheoli Newid
- Effaith Newid o Brosiect i Raglenni
- Effaith Newid o Raglenni i Bortffolio
- Protocol Dyrchafu Newid
- Beth yw'r broses ar gyfer Dyrchafu Newid?
- Gweithdrefn Prosiectau Newydd

**5.6.** Caiff penderfyniadau newid mawr mewn prosiectau eu dyrchafu o lefel prosiect i lefel bwrdd rhaglen, neu, pan fo angen, i'r Bwrdd Portffolio am benderfyniad. Yna caiff argymhellion eu cyflwyno i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (os oes angen) am benderfyniad.

**5.7.** Gall enghreifftiau o newidiadau mawr fod ynghlwm â chost, sgôp ac amser, er enghraifft mae gwariant y prosiect naill ai o dan yr hyn a ragwelwyd (tanwariant) neu mae'r costau'n cynyddu y tu hwnt i'r goddefgarwch a ddisgwyliwyd (gorwariant). Mae'r ddwy sefyllfa yn rhoi heriau naill ai i gynyddu neu ostwng sgôp a buddion y prosiect.

**5.8.** Argymhellir asesiad lefel uchel o'r meysydd sy'n debygol o gael eu heffeithio gan newid. Yna, dylid torri'r dadansoddiad o'r asesiad o newid posib i lawr i effaith mewn meysydd penodol a gallai'r rhain gynnwys yr isod

- Risg - pa mor gymhleth yw'r newid i'r rhaglen neu'r prosiect a beth yw'r effaith ar risg?
- Galw yn y Farchnad - a yw'r newid wedi effeithio ar y galw am yr allbwn?
- Cyllid - a fydd y newid yn effeithio ar faterion ariannu. A oes cyllid digonol neu gyllideb wedi'i chlustnodi i weithredu'r newid a chyflawni'r rhaglen neu brosiect?
- Adnoddau - pwy a beth fydd hyn yn ei gynnwys?

- Buddion - a fydd y newid yn effeithio ar y buddion sydd i'w gyflawni?
- Argaeledd/capasiti - a oes gan y Rhaglen neu'r Prosiect gapasiti i weithredu'r newid o fewn yr adnoddau presennol?

**5.9.** Mae defnyddio asesiad Coch, Ambr, Gwyrdd (RAG) ar gyfer effaith newid posib i raglen neu brosiect yn declyn defnyddiol i helpu i asesu p'un a oes angen ei ddyrchafu o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio. Gellir mesur yr asesiad RAG dangosol ar gyfer effaith y newid yn erbyn y prif feini prawf a ganlyn i asesu'r ffordd ymlaen.

| **Gwyrdd**: Asesiad RAG |
|---|
| • Adnoddau - dim goblygiadau adnoddau ychwanegol<br>• Amser - dim effaith ar amserlen y prosiect<br>• Cyllideb - o fewn y gyllideb sydd wedi'i chlustnodi<br>• Risgiau - dim risg ychwanegol<br>• ***Buddion - dim gostyngiad mewn buddion*** |
| **Ambr:** Asesiad RAG |
| • Adnoddau - gellir bodloni'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen o fewn y timau cyflawni presennol<br>• Amser - oedi i'r prosiect yn debygol ond o fewn goddefgarwch derbyniol<br>• Cyllideb - Cynnydd/gostyngiad yn y gwariant a ragwelwyd o fewn goddefgarwch cytûn<br>• Risgiau - risgiau ychwanegol ond gellir eu lliniaru o fewn y gyllideb<br>• ***Buddion - gostyngiad neu gynnydd posib mewn buddion*** |
| **Coch**: Asesiad RAG |
| • Adnoddau - goblygiadau sylweddol ar adnoddau<br>• Amser - disgwylir oedi sylweddol<br>• Cyllideb - Cynnydd/gostyngiad yn y gwariant a ragwelwyd y tu hwnt i'r goddefgarwch cytûn<br>• Risgiau - risgiau sylweddol na ellir eu lliniaru o fewn y gyllideb<br>• ***Buddion - y buddion a dargedir yn annhebygol o gael eu cyflawni.*** |

**5.10.** Wrth asesu effaith bosib y ceisiadau i newid, mae hi hefyd yn hanfodol ystyried effaith peidio â gwneud y newid.

**Pennu'r ffordd ymlaen - cymeradwyo neu wrthod y newid**

5.11. Unwaith y mae cais i newid wedi'i asesu, mae tri cham posib i'w cymryd:
- Cymeradwyo’r cais;
- Gwrthod y cais;
- Gofyn am wybodaeth bellach.

**5.12.** Yn dibynnu ar natur y newid a'r effaith bosib, gwneir penderfyniadau ar newidiadau ar wahanol lefelau o fewn y portffolio gyda llwybr clir i ddyrchafu o'r lefel prosiect i'r lefel rhaglen i'r lefel portffolio.

**Proses Ddyrchafu Rheoli Newid**

Os na ellir cymeradwyo neu wrthod effaith y newid ar lefel prosiect, dylid dilyn y broses ddyrchafu a ganlyn.

**Prosiect > Rhaglen**

- Bydd newidiadau prosiect posib o bryder neu effaith sylweddol yn cael eu dyrchafu i'r Bwrdd Rhaglen er ystyriaeth.

**Rhaglen > Portffolio**

- Bydd newidiadau prosiect neu raglen posib o bryder neu effaith sylweddol yn cael eu dyrchafu i'r Bwrdd Portffolio er ystyriaeth.

**Portffolio > Bwrdd Uchelgais**

- Byddai newidiadau sylweddol, yn enwedig y rheini sydd â goblygiadau ariannol sylweddol, yn cael eu dyrchafu i'r Bwrdd Uchelgais am benderfyniad terfynol.

# Atodiad A - Damcaniaethau Newid Drafft yn ôl Rhaglen

Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

| Mewnbwn | Gweithgareddau | Buddiolwyr | Allbynnau Tymor Byr | Effeithiau Tymor Canolig | Effeithiau Tymor Hwy | Effeithiau Negyddol Posib |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB):**<br>• Gofyn y Cynllun Twf £3m<br>• Cyfanswm cost seilwaith o £9.6m<br><br>**Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter (EEOC)**<br>• Gofyn y Cynllun Twf £9.9m<br>• Cyfanswm cost seilwaith o £29.8 | **Tymor byr**<br>• Cymeradwyo'r Achos Busnes Prosiect<br>• Cam Dylunio a Chaniatâd Cynllunio (os bydd angen)<br>• Caffael<br>• Dechrau Adeiladu'r Safle<br><br>**Tymor hwy**<br>I'w gadarnhau yn ystod datblygu'r achosion busnes prosiect | Diwydiant adeiladu a'i gadwyn gyflenwi<br><br>Prifysgolion<br><br>SMEs yn y cadwyni cyflenwi gweithgynhyrchu<br><br>Dinasyddion gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr<br><br>Dinasyddion Cymru a'r DU | Swyddi a phrentisiaethau Adeiladu a'r Gadwyn Gyflenwi<br><br>Gweithlu mwy cymwys ac amrywiol<br><br>Gwell cyfleoedd ar gyfer arloesi a chydweithio<br><br>Ymchwilwyr newydd wedi'u cyflogi<br><br>Mwy o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer dinasyddion o bob cefndir | Mae sgiliau yn y sector gweithgynhyrchu gwerth uchel wedi'u halinio'n well i anghenion busnesau<br><br>Mwy o arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel gan yrru cyfleoedd pellach<br><br>Lefelau cyflogaeth preswyl yn y sectorau hyn wedi'u cynnal neu eu gwella, yn arbennig ymhlith pobl ifanc<br><br>Ansawdd y swyddi ar gyfer trigolion yn y sectorau hyn wedi'i gynnal neu ei wella<br><br>Gwell mynediad i ddeunyddiau cynaliadwy a thechnoleg | Y Sector Gweithgynhyrchu yn wydn ac yn gyrru arloesi pellach<br><br>Mwy o gydraddoldeb o ran cyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau hyn ar gyfer yr holl drigolion, waeth beth fo eu rhyw, oed, anabledd, hil ac ati<br><br>Lleihau allfudo<br><br>Lleihad mewn allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth | Cynnydd mewn allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth yn ystod y gwaith adeiladu<br><br>Cynnydd mewn allyriadau carbon ystod 1- 3 yn ystod gweithredu'r prosiect<br><br>Risg o drigolion yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai yn sgil ail gartrefi ymwelwyr |

| Thema | Mewnbwn | Gweithgareddau | Buddiolwyr | Allbynnau Tymor Byr | Effeithiau Tymor Canolig | Effeithiau Tymor Hwy | Effeithiau Negyddol Posib |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bwyd-amaeth a Thwristiaeth** | **Prosiect 1: Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**<br>• £10m o'r Cynllun Twf<br>• Cyfanswm y Gost - £13m<br><br>**Prosiect 2: Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi**<br>• £10m o'r Cynllun Twf<br>• Cyfanswm Cost - £15.4m<br><br>**Prosiect 3: Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>• £4.5m o'r Cynllun Twf<br>• Cyfanswm y Gost - £12.9m | **Tymor byr**<br>• Cymeradwyo'r Achos Busnes Prosiect<br>• Cam Dylunio a Chaniatâd Cynllunio (os bydd angen)<br>• Caffael<br>• Dechrau Adeiladu'r Safle<br><br>**Tymor hwy**<br>I'w gadarnhau yn ystod datblygu'r achosion busnes prosiect | Diwydiant adeiladu a'i gadwyn gyflenwi<br><br>Perchnogion busnesau bwyd-amaeth a thwristiaeth<br><br>Gweithwyr busnesau bwyd-amaeth a thwristiaeth<br><br>Dinasyddion gogledd Cymru<br><br>Ymwelwyr â gogledd Cymru | Swyddi a phrentisiaethau Adeiladu a'r Gadwyn Gyflenwi<br><br>Gweithlu mwy cymwys ac amrywiol<br><br>Mwy o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, gan gynnwys ar gyfer y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rheini sydd am weithio drwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>Cryfhau cadwyni cyflenwi gogledd Cymru | Mae sgiliau yn y sector bwyd amaeth a thwristiaeth wedi'u halinio'n well i<br><br>Mwy o arloesi ar draws y sectorau bwyd-amaeth a thwristiaeth yn gyrru cyfleoedd pellach<br><br>Lefelau cyflogaeth preswyl yn y sectorau hyn wedi'u cynnal neu eu gwella<br><br>Ansawdd y swyddi ar gyfer trigolion yn y sectorau hyn wedi'i gynnal neu ei wella<br><br>Gwella profiad yr ymwelydd | Sectorau Bwyd-amaeth a thwristiaeth yn wydn<br><br>Mwy o gydraddoldeb o ran cyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau hyn ar gyfer yr holl drigolion, waeth beth fo eu rhyw, oed, anabledd, hil ac ati<br><br>Lleihau allfudo<br><br>Nifer ymwelwyr yn cael ei gynnal neu ei gynyddu | Cynnydd mewn allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth yn ystod y gwaith adeiladu<br><br>Cynnydd mewn allyriadau carbon ystod 1- 3 yn ystod gweithredu'r prosiect<br><br>Risg o drigolion yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai yn sgil ail gartrefi ymwelwyr |

| Thema | Mewnbwn | Gweithgareddau | Buddiolwyr | Allbynnau Tymor Byr | Effeithiau Tymor Canolig | Effeithiau Tymor Hwy | Effeithiau Negyddol Posib |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynni Carbon Isel | **Prosiect 1: Morlais**<br>• Gofyn y Cynllun Twf o £9m<br>• Cyfanswm cost seilwaith o £36m<br><br>**Prosiect 2: Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel**<br>• Gofyn y Cynllun Twf £21m<br>• Cyfanswm cost seilwaith o £97.7m<br><br>**Prosiect 3: Gorsaf Bŵer Trawsfynydd**<br>• Gofyn y Cynllun Twf o £20m<br>• Cyfanswm cost seilwaith o £400m<br><br>**Prosiect 4: Prosiect Ynni Lleol Blaengar**<br>• Gofyn y Cynllun Twf o £25m<br>• Cyfanswm cost seilwaith o £106.2m<br><br>**Prosiect 5: Datgarboneiddio** | **Tymor Byr**<br><br>Cymeradwyo'r Achos Busnes Prosiect<br>• Cam Dylunio a Chaniatâd Cynllunio (os bydd angen)<br>• Caffael<br>• Dechrau Adeiladu'r Safle<br><br>**Tymor hwy**<br><br>I'w gadarnhau yn ystod datblygu'r achosion busnes prosiect<br>Cynhyrchu Ynni Carbon Isel | Llywodraeth Cymru a'r DU<br><br>Economi lleol<br><br>Busnesau lleol<br><br>Gweithwyr<br><br>Cymdeithas ehangach a chymunedau lleol<br><br>Darparwyr Addysg<br><br>Prifysgolion | Swyddi newydd<br><br>Cynnydd GVA<br><br>Buddsoddi mewn prosiectau ynni<br><br>Cynhyrchu Ynni Carbon Isel<br><br>Hwyluso prosiectau Ymchwil a Datblygu drwy isadeiledd a chyfleusterau newydd<br><br>Arbedion carbon<br><br>Datgarboneiddio rhwydweithiau trafnidiaeth | Creu swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol<br><br>Swyddi adeiladu dros dro a chefnogi'r sector adeiladu rhanbarthol<br><br>Lleihau allfudo<br><br>Lleihau diweithdra<br><br>Cefnogi ac annog cwmniau cysylltiedig<br><br>Cynyddu cynhyrchedd, arloesedd a masnacholi drwy ymchwil a datblygu<br><br>Cefnogi twf cadwyni cyflenwi gogledd Cymru<br><br>Capasiti ymchwil uwch a gwell enw da am ragoriaeth ymchwil i ogledd Cymru | Lliniaru newid hinsawdd<br><br>Lleihau diweithdra<br><br>Cadw sgiliau Cymraeg o fewn y rhanbarth<br><br>Buddion mewnfuddsoddi a chydgrynhoad<br><br>Perchnogaeth leol o brosiectau ynni<br><br>Buddion iechyd a gwella ansawdd yr aer | Cynnydd mewn allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth yn ystod y gwaith adeiladu<br><br>Cynnydd mewn biliau tanwydd |

| Thema | Mewnbwn | Gweithgareddau | Buddiolwyr | Allbynnau Tymor Byr | Effeithiau Tymor Canolig | Effeithiau Tymor Hwy | Effeithiau Negyddol Posib |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tir ac Eiddo** | **Safleoedd ac Eiddo**<br>1. Porth y Gorllewin, Wrecsam. gofyn y Cynllun Twf £9.1m Cyfanswm buddsoddiad o £32.4m<br><br>2. Warren Hall, Brychdyn Gofyn y Cynllun Twf £15m Cyfanswm Buddsoddiad o £70m<br><br>3. KSS, Bodelwyddan Gofyn y Cynllun Twf £10m Cyfanswm Buddsoddiad o £82m<br><br>4. FNWH, Sir Ddinbych, Gofyn y Cynllun Twf £4m Cyfanswm Buddsoddiad o £74m<br><br>5. Parc Bryn Cegin, Bangor Gofyn y Cynllun Twf o £6m<br><br>6. Porth Caergybi Gofyn y Cynllun Twf o £35m Cyfanswm Buddsoddiad o £80m | **Tymor byr**<br>• Cymeradwyo'r Achos Busnes Prosiect, sicrwydd cost galw'r farchnad ymrwymiad cyllid y sector preifat<br>• Cam Dylunio a Chaniatâd Cynllunio (os bydd angen)<br>• Caffael<br>• Dechrau Adeiladu'r Safle<br><br>Cwblhad Ymarferol<br><br>**Tymor hwy**<br>Datblygwyr Eiddo<br>Buddsoddwyr ac Arianwyr<br>Cwmnïau Proffesiynol<br>Gwasanaethau Ariannol<br>Cwmnïau Cynnal a Chadw<br>Eiddo Tenantiaid a gweithwyr busnes<br><br>Cyflenwyr a chontractwyr i fusnesau Aelwydydd a lluosogydd gwariant cysylltiedig | Diwydiant adeiladu a'i gadwyn gyflenwi<br><br>Arianwyr<br><br>Gweithwyr a'u teuluoedd<br><br>Cwmnïau proffesiynol<br><br>SMEs yn y cadwyni cyflenwi gweithgynhyrchu<br><br>Cymunedau lleol, y rhanbarth a chymdeithas ehangach<br><br>Llywodraeth leol, darparwyr addysg a hyfforddiant gwasanaethau<br>Gwella capasiti Ymgymerwyr Statudol<br><br>Lluosogydd traffig llongau a llongau mordeithio i'r economi ymwelwyr lleol<br><br>Buddion Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Diwydiant adeiladu a'i gadwyn gyflenwi<br><br>Sicrwydd busnes yn gyrru buddsoddiad a recriwtio<br><br>Gweithlu mwy cymwys ac amrywiol<br><br>Gwell cyfleoedd ar gyfer arloesi a chydweithio<br><br>Cymhellion i newydd-ddyfodiaid ac ehangu busnesau presennol<br><br>Lluosogydd gwariant i gymunedau lleol<br><br>Gwella isadeiledd<br><br>Rhaglenni a darparwyr hyfforddiant Cynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i ddinasyddion o bob cefndir | Newydd-ddyfodiaid i'r farchnad<br><br>Mwy o sicrwydd yn gyrru cynnydd mewn buddsoddiad<br><br>Effaith luosogol ar yr economi ehangach<br><br>Gwelliannau Iechyd a llesiant Cydlyniad Cymunedol Gwella gwasanaethau cyhoeddus Newydd-ddyfodiaid i'r farchnad<br><br>Ansawdd y swyddi ar gyfer trigolion yn y sectorau hyn wedi'i gynnal neu ei wella<br><br>Gwell mynediad i ddeunyddiau cynaliadwy a thechnoleg<br><br>Lleihad mewn angen tai Gwelliannau capasiti porthladd Cynnydd mewn niferoedd ymwelwyr a lluosogydd gwariant Gostyngiadau mewn allyriadau carbon Cynnydd mewn buddsoddiad | Sicrwydd Buddsoddiad a lleihau risg yn arwain i gynnydd mewn buddsoddiad<br><br>Buddion gweithgynhyrchu a chadwyn gyflenwi<br><br>Gwasanaethau cyhoeddus<br><br>Cyfleoedd cyflogaeth i'r gymdeithas ehangach, waeth beth fo eu rhyw, oed, anabledd, hil ac ati<br><br>Gwell cyfleusterau ar gyfer cyflogaeth, tai a hamdden<br><br>Lleihau allfudo pobl ifanc a thalentog<br><br>Cynnydd mewn cydlyniad cymunedol a bywiogrwydd<br><br>Ymchwil a datblygu ac arloesi<br><br>Lleihad mewn allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth<br><br>Gwelliannau sgiliau a hyfforddiant. Lleihad mewn amddifadedd.<br>Gwelliannau Iechyd a Llesiant Capasiti gweithgynhyrchu a chadwyn gyflenwi rhanbarthol | Cynnydd mewn allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth yn ystod y gwaith adeiladu<br><br>Tagfeydd a chreu traffig -<br><br>Cynnydd mewn allyriadau carbon ystod 1- 3 yn ystod gweithredu'r prosiect<br><br>Adleoli gweithgareddau adeiladu o ardaloedd neu brosiectau eraill<br><br>Methu cyflawni targedau cyflogaeth, GVA a buddsoddi<br><br>Colli bioamrywiaeth a chynefin<br><br>Risg o drigolion yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai yn sgil ail gartrefi ymwelwyr Amserlenni i gyflawni cynlluniau a rheoli disgwyliadau<br><br>Risg cyflawni yn gysylltiedig â'r datblygiad risgiau hyfywedd wrth fodloni allyriadau dim carbon sbec eiddo |

| Thema | Mewnbwn | Gweithgareddau | Buddiolwyr | Allbynnau Tymor Byr | Effeithiau Tymor Canolig | Effeithiau Tymor Hwy | Effeithiau Negyddol Posib |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Digidol** | **Prosiect 1: Ffibr llawn mewn safleoedd allweddol**<br>• £6.8m Cynllun Twf<br>• Cyfanswm y gost - £7.2m<br>**Prosiect 2: Campysau Cysylltiedig**<br>• £21m Cynllun Twf<br>• Cyfanswm y gost - £21m<br>**Prosiect 3: Coridor Cysylltiedig**<br>• £2.2m Cynllun Twf<br>• Cyfanswm y gost - £2.2m<br>**Prosiect 4: Yr ychydig % olaf**<br>• £4m Cynllun Twf<br>• Cyfanswm y gost - £4m<br>**Prosiect 5: Canolfan Ragoriaeth DSP**<br>• £3m Cynllun Twf<br>• Cyfanswm y gost - £7.3m | **Tymor byr**<br>• Cymeradwyo'r Achos Busnes Prosiect<br>• Cam dichonoldeb a dylunio • Caffael<br>• Dechrau Adeiladu'r Safle<br><br>**Tymor hwy**<br>I'w gadarnhau yn ystod datblygu'r achosion busnes prosiect | Diwydiant telegyfathrebu a'i gadwyn gyflenwi<br><br>SMEs yn cynnwys mewn diwydiannau allweddol; logisteg a thrafnidiaeth, gweithgynhyrchu, digidol,<br><br>Sector cyhoeddus<br><br>Dinasyddion gogledd Cymru<br><br>Ymwelwyr â gogledd Cymru | Isadeiledd ffibr llawn fforddiadwy a chystadleuol i gefnogi diwydiannau allweddol<br><br>99% band eang tra chyflym<br><br>Cynnydd mewn capasiti a galluoedd yn y Ganolfan Ragoriaeth DSP<br><br>Darpariaeth strategol o rwydweithiau mynediad di-wifr sefydlog gyda lled band uchel | Cynnydd mewn busnesau newydd sy'n cael eu sefydlu<br><br>Sector preifat sy'n fwy gwydn, effeithlon, cystadleuol a chynhyrchiol yn y rhanbarth<br><br>Gostyngiad mewn marwolaeth mentrau | Cynaliadwyedd economaidd gyda busnesau sy'n medru ymelwa'n fasnachol ar gysylltedd a modelau busnes newydd<br><br>Cyfleoedd cyflogaeth ehangach a swyddi sy'n talu'n well yn y diwydiannau twf modern<br><br>Ail-leoli'r rhanbarth fel economi amrywiol nad yw'n seiliedig ar amaethyddiaeth, twristiaeth, manwerthu a'r sector cyhoeddus mwyach<br><br>Amrywio'r economi wrth i gysylltedd ganiatáu am yr ystod ehangach o ddiwydiannau i leoli a thyfu yn y rhanbarth | Mae'n bosib y bydd angen i fusnesau presennol fod yn medru addasu i fwy o gystadleuaeth<br><br>Gall gwell cysylltedd gyflwyno newidiadau diwylliannol yn lleol ac yn rhanbarthol ac mae'n bosib na fydd y sectorau diwydiannol sydd wedi'u sefydlu yn cadw amlygrwydd / hunaniaeth gref yn y rhanbarth. |

# Atodiad B - Templed Drafft

I'w boblogi wrth i achosion busnes prosiectau gael eu datblygu

| Amcan Gwariant / Budd | Gwybodaeth gwaelodlin | Dangosyddion effaith | Dulliau'r effaith |
|---|---|---|---|
| **1** | i) | | |
| | ii) | | |
| | iii) | | |
| **2** | i) | | |
| | ii) | | |
| | iii) | | |
| **3...** | | | |